# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 29 Tachwedd 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/13563) yn:

[http://senedd.tv/cy/13563](http://senedd.tv/cy/13563)

## 175

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Newid Hinsawdd

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg ac Addysg

Dechreuodd yr eitem am 14.20

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 3 a 9 eu grwpio i'w hateb gyda'i gilydd. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 3 Cwestiynau Amserol

Ni dderbyniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol

### 4 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.05

Gwnaeth **Huw Irranca-Davies** ddatganiad ar - 15 mlynedd o Pontyclun Bosom Pals.

Gwnaeth **Vikki Howells** ddatganiad ar - Parc gwledig Cwm Dâr yn troi'n 50 (3 Rhagfyr).

Gwnaeth **Buffy Williams** ddatganiad ar - Diwrnod AIDS y Byd (1 Rhagfyr).

## 5 Datganiad gan Sam Rowlands - Cyflwyno Bil Arfaethedig Aelod: Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 15.11

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol - Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon: Archwilio hen berthynas mewn oes newydd

Dechreuodd yr eitem am 16.10

**NDM8417** Delyth Jewell (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 'Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon: Archwilio hen berthynas mewn oes newydd', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Hydref 2023.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Tachwedd 2023.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith - Gweithrediad mesurau interim diogelu'r amgylchedd 2022-23

Dechreuodd yr eitem am 17.01

**NDM8418** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: Adroddiad ar weithrediad mesurau interim diogelu'r amgylchedd 2022-23, a osodwyd ar 21 Medi 2023.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Tachwedd 2023. Ymatebodd Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (Saesneg yn unig) ar 30 Hydref 2023.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Busnesau bach

Dechreuodd yr eitem am 17.37

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM8420** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi y bydd Dydd Sadwrn y Busnesau Bach yn cael ei gynnal ar 2 Rhagfyr 2023.

2. Yn cydnabod y cyfraniad hanfodol y mae busnesau bach yn ei wneud o ran creu swyddi, cefnogi cymunedau a datblygu'r economi leol.

3. Yn croesawu'r toriadau gan Ganghellor y Trysorlys i gyfraniadau yswiriant gwladol, a fydd o fudd i bobl hunangyflogedig o fis Ebrill 2024 ymlaen.

4. Yn annog cymunedau i siopa'n lleol i gefnogi busnesau bach i dyfu a ffynnu.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) defnyddio pob ysgogiad sydd ganddi i gefnogi busnesau bach yng Nghymru yn well; a

b) parhau i gefnogi busnesau bach drwy newidiadau i bolisïau caffael ar draws y sector cyhoeddus.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 36 | 50 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn gresynu at y ffaith bod y Cangellorion dros y blynyddoedd diwethaf wedi camreoli'r economi gan achosi niwed y byddai wedi bod yn bosibl ei osgoi i fusnesau bach sydd bellach yn wynebu costau ynni a chostau morgais uwch o'u cymharu â busnesau o'r un maint mewn economïau tebyg.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 23 | 50 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gan fod gwelliant 1 wedi'i dderbyn, cafodd gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 3** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu pwynt 5 a rhoi yn ei le:

Yn croesawu:

a) y cymorth y mae busnesau bach ac entrepreneuriaid wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru drwy wasanaethau a mentrau fel Busnes Cymru, Banc Datblygu Cymru a'r Grant Rhwystrau rhag Dechrau Busnes; a

b) dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â'r economi bob dydd a'r cynnydd a wnaed er mwyn helpu mwy o fusnesau bach i ennill mwy o gontractau ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 24 | 50 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

**NDM8420** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi y bydd Dydd Sadwrn y Busnesau Bach yn cael ei gynnal ar 2 Rhagfyr 2023.

2. Yn cydnabod y cyfraniad hanfodol y mae busnesau bach yn ei wneud o ran creu swyddi, cefnogi cymunedau a datblygu'r economi leol.

3. Yn gresynu at y ffaith bod y Cangellorion dros y blynyddoedd diwethaf wedi camreoli'r economi gan achosi niwed y byddai wedi bod yn bosibl ei osgoi i fusnesau bach sydd bellach yn wynebu costau ynni a chostau morgais uwch o'u cymharu â busnesau o'r un maint mewn economïau tebyg.

4. Yn annog cymunedau i siopa'n lleol i gefnogi busnesau bach i dyfu a ffynnu.

5. Yn croesawu:

a) y cymorth y mae busnesau bach ac entrepreneuriaid wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru drwy wasanaethau a mentrau fel Busnes Cymru, Banc Datblygu Cymru a'r Grant Rhwystrau rhag Dechrau Busnes; a

b) dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â'r economi bob dydd a'r cynnydd a wnaed er mwyn helpu mwy o fusnesau bach i ennill mwy o gontractau ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
| --- | --- | --- | --- |
| 25 | 0 | 26 | 51 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y cynnig wedi'i ddiwygio. Felly, gwrthodwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

## 9 Cyfnod Pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.32

## 10 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 18.37

**NDM8421** James Evans (Brycheiniog a Sir Faesyfed)

Pwysigrwydd rygbi llawr gwlad mewn cymunedau

Daeth y cyfarfod i ben am 18.55

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 5 Rhagfyr 2023